Nodiadau Cefndir - Ystyriaeth Arbennig

Pwrpas a chwmpas y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch a safwyd yn ystod cyfres arholiadau haf 2022 mewn canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Nid yw'r datganiad hwn yn gynnwys cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gaiff eu sefyll y tu allan i Gymru.

Mae'r datganiad hwn yn ymdrin â dadansoddiadau o geisiadau a chymeradwyaethau ystyriaethau arbennig ac yn edrych ar ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r broses ystyriaeth arbennig. Mae'r ffigurau'n cynrychioli nifer y ceisiadau a chymeradwyaethau, wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf, a gyflwynwyd gan gyrff dyfarnu ar y dyddiad adrodd sydd wedi'i nodi yn ein hamserlen gofnodi, gan adlewyrchu'r sefyllfa hyd at a chan gynnwys y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data.

Ystyriaeth Arbennig

Mae canllawiau'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) yn nodi mai ystyriaeth arbennig yw addasiad ôl-arholiad i farc neu radd ymgeisydd i adlewyrchu salwch/anaf dros dro neu ryw ddigwyddiad arall y tu allan i reolaeth yr ymgeisydd ar adeg yr asesiad, sy'n rhesymol debygol o fod wedi cael, effaith berthnasol ar eu gallu i sefyll asesiad neu ddangos gwir lefel eu cyrhaeddiad. Ni ddylid drysu rhwng y rhain a darpariaethau arholiad y cytunwyd arnynt ymlaen llaw a wneir i sicrhau bod modd asesu myfyrwyr yn ddilys ac nad ydyn nhw dan anfantais annheg oherwydd anabledd, salwch/anaf dros dro neu os nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Rydyn ni'n adrodd ar y math yna o addasu yn ein hystadegau ar drefniadau mynediad.

Mae cais ystyriaeth arbennig yn ymwneud ag un cais ar ran ymgeisydd sy'n eistedd uned neu elfen benodol mewn cyfres arholiadau. Bydd ceisiadau'n cael eu gwneud gan ganolfannau fel arfer ar ôl i asesiad gael ei gynnal. Mae modd gwneud cais ar ran ymgeisydd unigol, neu grŵp o ymgeiswyr os yw'r rheswm dros ystyriaeth arbennig yn cwmpasu sawl ymgeisydd. Mae modd gwneud cais hefyd ar ran ymgeisydd unigol ar draws sawl asesiad.

Gall ystyriaeth arbennig fod ar ffurf addasiad marc os oedd yr ymgeisydd yn bresennol ar gyfer yr asesiad, neu ddyfarniad cymhwyster os na allai'r ymgeisydd fod yn bresennol i gwblhau'r holl asesiadau gofynnol. Mae'r olaf yn cynnwys cyfrifo marc coll gan ddefnyddio perfformiad yr ymgeisydd mewn unedau tebyg a dosbarthiad marc y garfan gyffredinol. Ni fydd cyrff dyfarnu yn cymeradwyo cais os ydyn nhw'n

credu nad yw'r rhesymau a roddwyd wedi effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ymgeisydd.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys ceisiadau ystyriaeth arbennig a wnaed gan ganolfannau yn unig. Mewn rhai achosion, gellir rhoi addasiadau marciau ystyriaeth arbennig pan na wnaed cais gan y ganolfan. Er enghraifft, os oes gwall mewn papur cwestiynau a oedd yn rhoi nifer fawr o ymgeiswyr o dan anfantais, gall corff dyfarnu benderfynu dyfarnu addasiad marc i bob ymgeisydd oedd dan anfantais oherwydd y gwall, waeth a wnaed cais ai peidio. Nid yw unrhyw addasiadau marciau nad ydynt yn gysylltiedig â chais wedi'u cynnwys yn y data yn y datganiad hwn.

Ffynhonnell y Data

Mae'r cyrff dyfarnu sy'n darparu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch wedi cyflwyno gwybodaeth i Cymwysterau Cymru am nifer y ceisiadau ystyriaeth arbennig ar gyfer pob cymhwyster a oedd ar gael yn haf 2019. Dim ond ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru y mae'r data ystyriaeth arbennig a gafodd ei gyflwyno, waeth beth fo'r math o ganolfan.

Oherwydd bod arholiadau'r haf wedi'u canslo yn 2020 a 2021 o ganlyniad i bandemig COVID-19, nid oes data ystyriaeth arbennig ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020 na haf 2021 ac mae'r blynyddoedd hyn wedi'u heithrio o'r datganiad.

Cyfyngiadau'r data

Mae'n bosibl bod y wybodaeth a ddarparwyd gan gyrff dyfarnu yn wallus. Felly, ni all Cymwysterau Cymru warantu bod y wybodaeth a dderbyniwyd yn gywir. Rydyn ni'n cymharu'r data dros amser ac yn chwilio am faterion systematig. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau cywirdeb y data a'i herio neu ei gwestiynu, lle bo angen. Rydyn ni'n rheoli'r broses hon yn barhaus drwy:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt ac yr ymgynghorir yn llawn â hwy yn ystod y cyfnodau cynllunio cychwynnol ac unrhyw gyfnodau o newid dilynol;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) y dylai'r holl ddata fod yn gwbl gywir, a bod hynny yn amod o'u rheoleiddio;
- Bod yn wyliadwrus o newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynir drwy gymharu ffurflenni unigol dros amser gan yr un darparwr;
- Herio darparwyr y data os bydd unrhyw ganlyniadau annisgwyl.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad ystyrir bod yr ystadegau'n addas i'r diben.

Casglwyd data ar adeg briodol pan fo'n rhesymol gyflawn.

Cymariaethau

O flwyddyn academaidd 2017/18 ymlaen, mae cyrff dyfarnu yn cyflwyno data cymwysterau cyffredinol i Cymwysterau Cymru yn hytrach nag Ofqual. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli cymariaethau â data hanesyddol Ofqual.

Amdanom ni a'n hystadegau

Cymwysterau Cymru yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru

Mae Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 yn ein henwi yn un o'r cyrff o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Mae'r datganiad yma'n cael ei gyhoeddi fel ystadegau swyddogol, gan gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Sicrhau ansawdd

Mae manylion o ran sut rydyn ni'n sicrhau ansawdd y data yma'n cael eu cynnwys yn ein Datganiad Interim am Ansawdd Ystadegol a Sicrhau Ansawdd Ffynonellau Data Gweinyddol. Mae data hanesyddol wedi bod yn destun gweithdrefnau sicrhau ansawdd Ofqual.

Diwygiadau

Unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi, ni fydd y data yma fel arfer yn cael eu diwygio, ond efallai y caiff datganiadau dilynol eu diwygio i gynnwys data hwyr neu gywiro gwall. Ceir mwy o wybodaeth yn ein Polisi Diwygiadau a Chywiriadau.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Yn unol â pholisi allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, mae ffigurau sy'n llai na 5 ond yn fwy na 0 yn cael eu disodli gan *. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw data'n datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ffigyrau ar gyfer nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd yn cael eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'r canrannau i gyd yn seiliedig ar ffigyrau sydd heb eu talgrynnu. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddan nhw'n cyfateb i'r cyfanswm.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae geirfa o dermau ar gael ar ein gwefan i'ch helpu i ddehongli'r datganiad yma. Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau'r dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cronfa ddata QiW yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r un yma, gan gynnwys:

- Y datganiad 'Canlyniadau arholiadau', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Ystadegau a gyhoeddwyd gennym ni sy'n ymwneud ag agweddau eraill ar y system gymwysterau.
- Ystadegau a gyhoeddwyd gan Ofqual.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn ac adborth

Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i fonitro'r system gymwysterau. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn debygol o fod o ddiddordeb i Ofqual a rheoleiddwyr cymwysterau eraill, cyrff dyfarnu, canolfannau (ysgolion a cholegau) a Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n croesawu unrhyw adborth ar yr ystadegau hyn ac mae modd eu darparu drwy e-bost at ystadegau@cymwysteraucymru.org.

© (2022) Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffyn onnell wreiddiol.